

Fferm Wynt Ffynnon Oer ger Castell-nedd, De Cymru. Adeiladwyd gan RWE npower renewables yn 2006. Nid yw lluniau'r ffermydd gwynt gweithredol a geir yn y cylchlythyr hwn yn cynrychioli ymddangosiad Fferm Wynt arfaethedig Coedwig Brechfa.

Cyflwyno RWE npower renewables

Hoffai RWE npower renewables gymryd y cyfle cynnar hwn i gyflwyno'i hun i'r bobl a'r cymunedau hynny sydd yng nghyffiniau Coedwig Brechfa, Sir Gaerfyrddin.

Mae'n bleser gennym ein bod wedi arwyddo Cytundeb Opsiwn gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda golwg ar ddatblygu fferm wynt ar dir a rheolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru (ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN 8) Ardal Chwilio Strategol G - Coedwig Brechfa yn Ne Orllewin Cymru.

Golyga hyn bod gennym ganiatâd i ymchwilio'r safle a bwrw ymlaen â chaniatâd cynllunio ar gyfer darpar fferm wynt yn yr ardal.

Cyn i ni gadarnhau unrhyw fanylion sylweddol, megis maint y fferm wynt arfaethedig, nifer ac uchder y tyrbinau a gosodiad y safle, mae angen cynnal astudiaeth amgylcheddol sylweddol ar y safle gan fod y cynllun yn ei ddyddiau cynnar. O ganlyniad, nid oes gennym gryn lawer o fanylion manwl tan ein bod yn medru cynnal yr astudiaethau o ddifri.

Fodd bynnag, rydym wrthi erbyn hyn yn dechrau cynnal yr astudiaethau, er mwyn i ni fedru rhannu'r manylion gyda chi cyn gynted â phosib (rydym yn esbonio sut y byddwn yn gwneud hynny yn ddiweddarach yn y cylchlythyr hwn.) Byddwn wedyn yn eich gwahodd i ddatgan eich barn a'ch syniadau er mwyn ein galluogi i ddatblygu cynnig sy'n gweddu i'r ardal, ac sy'n ystyried eich barn o ddifri.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi!



Lleoliad safle Fferm Wynt Coedwig Brechfa, yn Ne Orllewin Cymru.

Beth sydd wedi digwydd hyd yma?

Yn 2005, fe wnaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) wahodd datblygwyr ynni adnewyddadwy i fynegi diddordeb mewn datblygu ffermydd gwynt ar dir a rheolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ac a nodwyd yn TAN 8. Cyhoeddwyd yn 2008 mai RWE npower renewables oedd y cynigydd a ffafriwyd. Rydym wrthi'n paratoi i ddechrau'r astudiaethau amgylcheddol perthnasol sydd eu hangen i ddatblygu cynnig ar gyfer y safle hwn, a hoffem glywed barn gychwynnol sefydliadau statudol allweddol.

Yr ardal ddatblygu arfaethedig

Bydd y prosiect arfaethedig yn cael ei leoli yn Sir Gaerfyrddin, rhwng 11km ac 20km i'r de/ de-orllewin o Lambed a rhwng 12km a 23km i'r gogledd ddwyrain o Gaerfyrddin. Mae'r ardal ddatblygu arfaethedig yn cynnwys dau lwyfandir sy'n amlwg iawn yn ddaearyddol. Mae'r ardal gyntaf yn cwmpasu Dyffryn Afon Pib, i'r dwyrain o Alltwalis, ac mae'r ail yn cwmpasu'r ardal o amgylch Banc Llywelau, i'r de o Rydcymerau.

Mae gan y datblygiad arfaethedig nifer o nodweddion allweddol sy'n bwysig o ran datblygu fferm wynt lwyddiannus, megis:

a) gwyntoedd cryfion, parhaus a fydd yn cynyddu'r ynni a gynhyrchir gan y tyrbinau
b) arwynebedd helaeth o dir sy'n caniatáu cynllun fferm wynt sydd â phellteroedd da rhyngddo ac eiddo eraill sydd gerllaw
c) mynediad i'r rhwydwaith ffyrdd presennol
d) y mae'r ardal y tu allan i ddynodiadau tirlun ac ecolegol rhyngwladol, cenedlaethol a sirol
e) Gorwedda Coedwig Brechfa o fewn un o'r Ardaloedd Chwilio Strategol (Ardal G) a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn TAN 8, fel ardal sy'n addas i ffermydd gwynt ar raddfa fawr.

Ynglŷn â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8

Yn ei ddogfen Datganiad Polisi Cynllunio Interim ar Ynni Adnewyddadwy 2005, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn cydnabod mai ynni gwynt sy'n cynnig "y potensial mwyaf ar gyfer cynyddu'r trydan a gynhyrchir o ynni adnewyddadwy, o leiaf yn y tymor byr i'r tymor canol."

I alluogi gwynt i gymryd y rôl flaenllaw hon yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd, daeth LlCC i'r casgliad mai dim ond mewn ardaloedd penodol o Gymru, a alwyd yn Ardaloedd Chwilio Strategol, y dylid datblygu ffermydd gwynt mawr. Nodwyd hyn yn nogfen polisi cynllunio TAN 8. Mae TAN 8 yn dynodi'r 7 ardal orau yng Nghymru ar gyfer lleoli ffermydd gwynt, drwy ystyried ffactorau fel cyflymder gwynt, pa mor agos ydynt at dai cyfagos a dynodiadau tirwedd ac ecolegol sydd o bwysigrwydd.

Cyfathrebu Rheolaidd

Drwy gydol y cyfnod y byddwn yn datblygu ein cynigion ar gyfer Coedwig Brechfa, bydd RWE npower renewables yn darparu'r newyddion diweddaraf am y cynnydd ar eich cyfer ac yn cynnig cyfleoedd i drafod gyda chymunedau lleol a rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y prosiect. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein cylchlythyron, diweddaru'n gwefan a'r wasg leol.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddatblygu'r safle mewn ymgynghoriad â chymunedau lleol, byddwn yn creu cyfleoedd ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus , gan gynnwys cyfres o arddangosfeydd cyhoeddus yn ddiweddarach yn y broses.

Rydym wedi sefydlu gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r cynllun, a bydd y gwefan hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd: *www.npower-renewables.com/brechfaforest*

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cynllun hwn, mae croeso i chi gysylltu â ni
Drwy e-bost: brechfaforest@rwe.com
Neu drwy'r post: RWE npower renewables – Coedwig Brechfa, Uned 22,
Technium: Technolegau Cynaliadwy,
Central Avenue, Parc Ynni Baglan,
Port Talbot, De Cymru, SA12 7AX.

RWE npower renewables yng Nghymru

RWE npower renewables yw un o gwmnïau ynni adnewyddadwy mwyaf blaenllaw'r DU. Rydym wedi ymrwymo i gynhyrchu trydan drwy ddefnyddio adnoddau cynaliadwy ecogyfeillgar.

Rydym yn datblygu, adeiladu a gweithredu cynlluniau ynni adnewyddadwy ledled y DU, ac rydym yn hynod falch o'n treftadaeth yng Nghymru. Mae ein gorsaf bŵer trydan dŵr hynaf wedi bod yn gweithredu yma ers dros 100 mlynedd.

Rydym yn gweithredu nifer o ffermydd gwynt artraeth yng ngogledd, canolbarth a de Cymru. Daeth ein Fferm Wynt diweddaraf Ffynnon Oer, sydd i'r gogledd o Gastell-nedd yn hollol weithredol yn 2006, ac rydym wedi cyflwyno cynigion am dair fferm wynt arall, gan gynnwys fferm wynt fawr ger Y Trallwng, sy'n corffori un o'r prosiectau mwyaf yng Nghymru yn nhermau adfer cynefinoedd.

Mae ein cwmni wedi datblygu ac wrthi'n gweithredu fferm wynt alltraeth fwyaf y DU, sef North Hoyle, ger Y Rhyl. Ar hyn o bryd, rydym yn adeiladu ein hail fferm wynt alltraeth, Fflatiau'r Rhyl ac yn ddiweddar cawsom ganiatâd i adeiladu'r trydydd, Gwynt y Môr.

Rydym hefyd yn gweithredu chwe gorsaf bŵer trydan dŵr yng Nghymru, a sefydlwyd ein canolfan ar gyfer rheoli gweithrediadau'r DU yn Nolgarrog, Conwy. Yn olaf, mae gan RWE npower renewables nifer o swyddfeydd sefydledig yng Ngogledd, De a Chanolbarth Cymru, ac mae dros draean o'r staff a gyflogir yn y DU, yma yng Nghymru.